CYLCHLYTHYR RHIENI/GOFALWYR

Hydref 2026

Gyrfa Cymru
Careers Wales


Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol

Croeso

Wrth i'r flwyddyn academaidd newydd ddechrau, mae'n amser gwych i ddechrau meddwl am y cyfleoedd a'r penderfyniadau a allai fod yn wynebu eich plentyn. P'un a ydyn nhw'n ymgartrefu mewn blwyddyn ysgol newydd, yn edrych ar opsiynau ôl-16 neu'n dechrau meddwl am yrfaoedd yn y dyfodol, mae **Gyrfa Cymru** yma i helpu ar bob cam o'r ffordd.

Yn y rhifyn hwn, fe welwch ganllawiau ymarferol ac adnoddau defnyddiol i'ch helpu i gefnogi eich plentyn drwy gydol tymor yr hydref.

Gyda'n gilydd, gallwn helpu eich plentyn i gymryd camau cadarnhaol tuag at ei ddyfodol.



Cefnogi dyfodol eich plentyn

Gall ein cynghorwyr gyrfa wneud y canlynol:

- Rhoi gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd diduedd am yrfaoedd
- Helpu eich plentyn i ddeall ei gryfderau a chyrraedd ei botensial
- Rhannu gwybodaeth am opsiynau, gan gynnwys gwaith a dysgu pellach
- Helpu eich plentyn i osod nodau tymor byr a hirdymor
- Cefnogi eich plentyn os yw'n wynebu rhwystrau a heriau



Mae ein cynghorwyr gyrfa profiadol yn teilwra eu dull yn unol ag oedran ac anghenion eich plentyn.

Mae gennym gynghorydd gyrfa sy'n gysylltiedig â phob ysgol ond gallwn hefyd barhau i gynorthwyo eich plentyn pan fydd yn symud ymlaen o'r ysgol.

Yn ystod tymor yr hydref, bydd cynghorwyr gyrfa yn cwrdd â phobl ifanc sy'n paratoi i adael ysgolion ledled Cymru i'w helpu i gynllunio eu camau nesaf, a byddwn yn cynnal llawer o adolygiadau blynyddol.

Os hoffech chi sgwrsio â'r cynghorydd gyrfa sy'n gweithio gyda'ch plentyn, cyn yr adolygiad blynyddol, cysylltwch â ni.

Sut y gwnaethon ni gefnogi rhieni a gofalwyr y llynedd

Dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, fe wnaethom barhau i ddarparu cymorth pwrpasol i rieni a gofalwyr pobl ifanc ag **anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**, gan helpu teuluoedd i wneud penderfyniadau gwybodus am addysg, hyfforddiant a llwybrau gyrfa yn y dyfodol.


Gwnaethon ni ymgysylltu'n uniongyrchol â **5,312 o rieni a gofalwyr pobl ifanc ag ADY** drwy ddarparu canllawiau a gwybodaeth am gamau nesaf eu plentyn.

Yn ogystal â'r rhyngweithiadau hyn, gwnaethon ni ymgysylltu â mwy o deuluoedd pobl ifanc ag ADY drwy fynychu **2,150 o adolygiadau o Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU) lle'r oedd rhieni a gofalwyr yn bresennol**, gan greu cyfleoedd i drafod opsiynau, ateb cwestiynau a rhoi sicrwydd.

Gwnaethon ni hefyd gynnal **940 o gyfweliadau gyda phobl ifanc ag ADY ochr yn ochr â'u rhieni neu ofalwyr**, gan sicrhau bod teuluoedd yn rhan o sgyrsiau pwysig am ddyheadau, y camau nesaf, a'r cymorth sydd ar gael i helpu pobl ifanc i gyflawni eu nodau.

Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at y rôl arwyddocaol rydych chi'n ei chwarae wrth gynorthwyo eich plentyn a'n hymrwymiad parhaus i roi'r wybodaeth, y cyfarwyddyd a'r hyder sydd eu hangen ar deuluoedd i lywio adegau pontio allweddol yn llwyddiannus.








Symud ymlaen o'r ysgol

Cynllunio ymlaen llaw

Nid yw byth yn rhy gynnar i ddechrau meddwl am ddyfodol eich plentyn.

Mae adolygiadau Cynllun Datblygu Unigol (CDU) eich plentyn yn amser da i siarad am yr hyn sy'n digwydd ar ôl gadael yr ysgol, gofyn cwestiynau a darganfod pa gymorth sydd ar gael.



Efallai yr hoffech chi ofyn:

- **Beth yw opsiynau fy mhlentyn ar ôl gadael yr ysgol?**
- **Sut gallwn ni ddechrau paratoi nawr?**
- **Pwy fydd yn helpu fy mhlentyn i gynllunio ar gyfer y dyfodol?**
- **Pa gymorth sydd ar gael i'w helpu i ddewis y llwybr cywir?**
- **Pa gymorth mae colegau neu ddarparwyr hyfforddiant yn ei gynnig?**
- **Beth sy'n digwydd os na all opsiynau lleol ddiwallu anghenion fy mhlentyn?**
- **Sut fydd fy mhlentyn yn teithio at y darparwr o ddewis?**

Gallwch ddod o hyd i ragor o gwestiynau a gwybodaeth yn yr adran Adolygiad Cynllun Datblygu Unigol ar wefan Gyrfa Cymru.

Gall cynghorydd gyrfa fod yn bresennol yn adolygiad CDU eich plentyn i esbonio'r opsiynau sydd ar gael ac ateb unrhyw gwestiynau. Os na all y cynghorydd fynychu, gallwch drefnu i siarad ag ef/hi rhywbryd arall.

Os hoffech chi wybod pwy yw cynghorydd gyrfa eich plentyn, gofynnwch i'r ysgol, ewch i wefan yr ysgol neu cysylltwch â Gyrfa Cymru yn uniongyrchol.

Gorau po gyntaf y byddwch chi'n dechrau'r sgwrs, y mwyaf o amser fydd gennych chi a'ch plentyn i edrych ar yr opsiynau ac i gynllunio'n hyderus.

Mae mwy o gwestiynau posibl ar ein gwefan

Adolygiad Cynllun Datblygu Unigol | Gyrfa Cymru

Opsiynau ar ôl gadael yr ysgol



Mae gwahanol opsiynau ar gael i'ch plentyn ar ôl gadael yr ysgol.

Mynd i'r coleg

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau ar wahanol lefelau, o bynciau ymarferol a galwedigaethol i gymwysterau academaidd. Gall colegau hefyd ddarparu cymorth dysgu ychwanegol i helpu eich plentyn i lwyddo.

Dechrau gweithio

Efallai y bydd eich plentyn yn dewis symud yn syth i gyflogaeth. Gall gwaith ei helpu i ennill profiad, datblygu sgiliau newydd, magu hyder ac ennill cyflog.

Bod yn hyfforddai

Gall hyfforddeiaethau ddarparu cymorth i'ch plentyn os oes angen cymorth ychwanegol arno i baratoi ar gyfer gwaith, hyfforddiant pellach neu brentisiaeth. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, hyder a phrofiad yn y gweithle.

Bod yn brentis

Mae prentisiaethau'n cyfuno gwaith â thâl â dysgu. Gall eich plentyn ennill cymwysterau wrth weithio mewn swydd go iawn, datblygu sgiliau ymarferol ac ennill cyflog.


Gwirfoddoli

Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o ennill profiad, dysgu sgiliau newydd, magu hyder a chwrdd â phobl. Gall hefyd helpu eich plentyn i archwilio gwahanol ddiddordebau gyrfa a chryfhau ceisiadau yn y dyfodol am swyddi, hyfforddiant neu addysg bellach.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'r dudalen we
Gwybod beth yw eich opsiynau

Fy Nyfodol

Gwybodaeth gyrfa hawdd ei deall i'ch plentyn



Fel rhiant neu ofalwr unigolyn ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gall deall yr opsiynau sydd ar gael ar ôl gadael yr ysgol deimlo'n llethol weithiau. Dyna pam rydyn ni wedi creu Fy Nyfodol, adran bwrpasol sy'n hawdd ei deall ar ein gwefan sydd wedi'i chynllunio i'ch helpu chi a'ch plentyn i archwilio ei ddyfodol yn hyderus.

Beth yw Fy Nyfodol?

Mae Fy Nyfodol yn darparu gwybodaeth hygyrch am yrfaoedd gan ddefnyddio iaith glir a chynnwys hawdd ei ddeall. Mae wedi'i gynllunio i'ch cynorthwyo chi a'ch plentyn wrth iddo ddysgu amdano ei hun, archwilio syniadau gyrfa a meddwl am ei gamau nesaf.

Mae'r adran yn cynnwys:

- Gwybodaeth am swyddi mewn gwahanol weithleoedd
- Cwisiau gyrfa i helpu i nodi diddordebau a chryfderau
- Canllawiau ar yr opsiynau sydd ar gael ar ôl yr ysgol a thu hwnt
- Cyngor ar ddod o hyd i swyddi a gwneud cais amdanynt
- Gwybodaeth am fyw'n annibynnol fel oedolyn
- Manylion sefydliadau a phobl a all gynnig cymorth

Helpu eich plentyn i wneud penderfyniadau

Gall gwneud penderfyniadau am addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a nodau ar gyfer y dyfodol fod yn heriol. Mae Fy Nyfodol yn rhannu gwybodaeth yn adrannau hwylus, gan eich helpu chi a'ch plentyn i ddeall ei opsiynau a magu hyder wrth wneud dewisiadau sy'n iawn iddo ef.

Gallwch ddefnyddio'r adnoddau ochr yn ochr â'ch plentyn i ddechrau sgyrsiau am ddiddordebau, cryfderau a'r camau nesaf. Gall y wefan fod yn ddefnyddiol wrth baratoi ar gyfer adolygiadau, trafodaethau gyrfa neu gynllunio ar gyfer pontio.

Cymorth i chi

Mae Fy Nyfodol hefyd yn cynnwys gwybodaeth yn benodol i chi, gan eich helpu chi i ddeall sut y gallwn ni gynorthwyo eich plentyn wrth iddo symud tuag at fod yn oedolyn ac i wneud penderfyniadau am ei ddyfodol.

P'un a yw'ch plentyn yn ystyried addysg bellach, hyfforddiant, cyflogaeth neu opsiynau byw'n annibynnol, mae'r wybodaeth wedi'i chynllunio i'ch helpu i lywio'r daith gyda'ch gilydd.

Edrych ar Fy Nyfodol
Fy Nyfodol | Gyrfa Cymru

Cwestiynau cyffredin a ofynnir i'n cynghorwyr gyrfa



Os yw eich plentyn yn ystyried mynd i'r coleg lleol ar ôl gadael yr ysgol, efallai yr hoffech wybod mwy. Dyma rai cwestiynau a ofynnir i'n cynghorwyr yn rheolaidd.

Gall cynghorydd gyrfa eich plentyn hefyd eich cynorthwyo gydag unrhyw gwestiynau a allai fod gennych am gynlluniau eich plentyn ar gyfer y dyfodol.

A yw pobl ifanc yn cael cymorth ychwanegol yn y coleg?

Ydy, mae pob coleg yn cynnig cymorth i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Gall y ffordd maen nhw'n darparu cymorth fod yn wahanol i'r ffordd y'i darparwyd yn yr ysgol, ond bydd y coleg yn gofyn am Gynllun Datblygu Unigol (CDU) eich plentyn ac yna'n siarad â chi am y cymorth y gall ei ddarparu.

Lle bynnag y bo modd, bydd staff y coleg yn mynychu adolygiad terfynol eich plentyn yn yr ysgol er mwyn iddynt allu cwrdd â chi a'ch plentyn ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Gallwch hefyd drefnu ymweld â'r coleg i edrych o gwmpas a siarad â'r staff.

Os yw'ch plentyn yn mynd ymlaen i gwrs Sgiliau Byw'n Annibynnol neu os oes angen darpariaeth benodol arno i ddiwallu ei anghenion ychwanegol, yna bydd y coleg yn parhau â'i CDU ac yn adolygu hyn bob blwyddyn.

Pryd y dylem wneud cais i'r coleg?

Mae cyrsiau coleg fel arfer yn dechrau ym mis Medi. Mae'r rhan fwyaf o golegau'n derbyn ceisiadau o fis Hydref neu fis Tachwedd y flwyddyn flaenorol. Mae rhai cyrsiau'n boblogaidd iawn a gall lleoedd lenwi'n gyflym, felly mae'n bwysig gwneud cais yn gynnar. Mae gwneud cais yn gynnar hefyd yn caniatáu mwy o amser ar gyfer pontio llyfn, gydag amser ar gyfer ymweliadau a thrafodaethau gyda staff y coleg. Mae rhai colegau hefyd yn cynnig sesiynau blasu fel bod pobl ifanc yn gallu treulio amser yn gweld sut beth yw bod yn fyfyriwr yn y coleg cyn iddyn nhw adael yr ysgol.

Sut fydd fy mhlentyn yn cyrraedd y coleg?

Lle bynnag y bo modd, disgwylir i'ch plentyn deithio'n annibynnol i'r coleg. Efallai y bydd angen hyfforddiant teithio ar gyfer hyn, felly gallai fod yn syniad da gofyn a yw hyn ar gael i'ch plentyn.

Os nad yw teithio'n annibynnol yn bosibl, efallai y bydd cymorth ar gael gan yr awdurdod lleol /gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn amrywio ledled Cymru felly mae'n well gwirio hyn yn ystod adolygiad CDU eich plentyn.

A oes unrhyw gymorth ariannol tra bod fy mhlentyn yn y coleg?

Gall budd-dal plant barhau hyd at 20 oed os yw'ch plentyn mewn coleg addysg bellach ac yn dilyn cwrs hyd at Lefel 3: Budd-dal Plant pan fo'ch plentyn yn troi'n 16 oed – GOV.UK

Efallai y bydd modd hawlio'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg os yw'ch plentyn yn 18 oed neu'n iau pan fydd yn dechrau yn y coleg ac rydych chi'n bodloni'r meini prawf cymhwystra: Cymorth myfyrwyr Cymru | LLYW.CYMRU

Mae yna hefyd Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach (a elwir weithiau'n Grant Dysgu Oedolion). Mae hyn ar gyfer pobl dros 19 oed cyn belled â'u bod nhw yn bodloni'r meini prawf cymhwystra: Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach | Cyllid Myfyrwyr Cymru

Mae gan golegau gronfa ariannol wrth gefn hefyd. Os nad yw'ch plentyn yn gallu mynychu'r coleg heb gymorth ariannol, efallai y byddwch yn gallu gwneud cais am hyn. Byddai angen i chi siarad â'r coleg lleol am hyn. Cyllid myfyrwyr: addysg bellach | LLYW.CYMRU

Beth nesaf?

Dewiswch Eich Dyfodol

Helpu eich plentyn i ystyried bywyd ar ôl gadael yr ysgol

Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd ein cyfres o ddigwyddiadau Beth Nesaf? Dewiswch Eich Dyfodol yn digwydd ledled Cymru y flwyddyn academaidd hon. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i bobl ifanc ystyried ystod eang o opsiynau gyrfa ac addysg mewn amgylchedd croesawgar, cefnogol a hygyrch. Os yw ysgol eich plentyn yn mynychu, gall gwrdd â chyflogwyr, colegau, darparwyr hyfforddiant a chynghorwyr Gyrfa Cymru; cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol; a dysgu am gyrsiau, prentisiaethau, cyfleoedd hyfforddi a gwahanol lwybrau gyrfa.

"Mae digwyddiadau fel hyn yn amhrisiadwy," meddai Rhian Thomas, cynghorydd cyswllt busnes yn Gyrfa Cymru.

"Nid gwybodaeth yn unig sydd ei hangen ar bobl ifanc: mae angen ysbrydoliaeth arnyn nhw hefyd. Gall cwrdd â rhywun sy'n gwneud swydd nad ydyn nhw erioed wedi clywed amdani newid yn llwyr yr hyn maen nhw'n credu sy'n bosibl iddyn nhw."

Sut y gallwch chi helpu?

Cyn i'ch plentyn fynychu'r digwyddiad, siaradwch â'ch plentyn am y gyrfaoedd, y swyddi neu'r gweithgareddau sydd fwyaf diddorol iddyn nhw. Efallai y gallwch chi baratoi rhai cwestiynau i'w gofyn i arddangoswyr posibl am sut beth yw gweithio yn eu sefydliad.

Ewch draw i'n tudalen digwyddiadau i gael gwybod mwy wrth i'r digwyddiadau gael eu cadarnhau'r hydref hwn.

Archwiliwch ddigwyddiadau tudalen digwyddiadau



Stori bywyd go iawn gan ddysgwr

Roedd cymorth yn helpu Tammi i gymryd y cam nesaf tuag at ddyfodol yn y cyfryngau creadigol nad oedd hi byth yn meddwl oedd yn bosibl.

Pan oedd Tammi yn meddwl am ei dyfodol, doedd hi ddim yn siŵr pa opsiynau fyddai ar gael iddi. Mae gan Tammi anableddau dysgu ac anableddau corfforol.

Ystyried cyfleoedd

Drwy sesiynau un-i-un, helpodd Alison Tammi i archwilio llwybrau ar gyfer y dyfodol, datblygu sgiliau bywyd, a magu ei hyder a'i hannibyniaeth.

"Siaradodd Alison â mi am wahanol lwybrau, dechrau coleg a dysgu sgiliau bywyd. Fe helpodd hi fi i feddwl am yr hyn sydd ei angen arna i pan fydda i'n gadael yr ysgol," meddai Tammi.

Gyda'i gilydd, fe wnaethon nhw archwilio syniadau gyrfa, cyfleoedd profiad gwaith a ffyrdd o ennill sgiliau a phrofiadau newydd.

Magu hyder a chael profiad

Dros y blynyddoedd, cymerodd Tammi ran mewn sesiynau gyrfa mewn grŵp, cyfweliadau ffug, ymweliadau â chyflogwyr a digwyddiad Beth Nesaf? Gyrfa Cymru. Helpodd y profiadau hyn iddi ddeall addysg, hyfforddiant, sgiliau cyflogadwyedd a byd gwaith.

Cwblhaodd leoliad profiad gwaith â chymorth yn yr ysgol hefyd cyn symud ymlaen yn llwyddiannus i leoliad annibynnol y tu allan i'r ysgol.



Stori Tammi



Gydag anabledd, doeddwn i ddim yn siŵr a fyddwn i'n gallu ei wneud, ond fe helpodd Alison fi i ddeall y cwrs a theimlo'n fwy hyderus ynglŷn â mynd i goleg prif ffrwd

Tammi

Ystyried coleg

Drwy weithgareddau cyswllt â'r coleg, darganfu Tammi frwdfrydedd dros y cyfryngau creadigol a dechreuodd ystyried cwrs coleg amser llawn.

"Gydag anabledd, doeddwn i ddim yn siŵr a fyddwn i'n gallu ei wneud, ond fe helpodd Alison fi i ddeall y cwrs a theimlo'n fwy hyderus ynglŷn â mynd i goleg prif ffrwd," meddai.

Gyda chymorth Alison, llwyddodd Tammi i wneud cais a sicrhau lle ar gwrs cyfryngau Lefel 1 amser llawn.

"Heb Alison, doeddwn i ddim yn gallu ei wneud ar fy mhen fy hun."

Dod o hyd i'w llais

I Dawn, mam Tammi, aeth y cymorth ymhell y tu hwnt i benderfyniadau gyrfa. Gwelodd dwf rhyfeddol yn hyder a hunan-gred ei merch.

"Cymerodd Alison yr amser i ddeall Tammi a'i hanghenion, a'r hyn yr oedd hi eisiau ei wneud. Helpodd y sgyrsiau un-i-un i Tammi sylweddoli beth oedd hi'n gallu ei wneud."

Mae Dawn yn credu bod cael gwrandawiad a dealltwriaeth wedi helpu Tammi i ddatblygu'r hyder i siarad drosti ei hun ac eraill trwy ei rôl fel llysgennad ieuenctid.

Dyfodol disglair

Gan fod Tammi bellach yn astudio cwrs Lefel 1 yn y Cyfryngau yn y coleg, mae hi'n gyffrous am y dyfodol ond mae hi'n cadw ei hopsiynau ar agor.

"Does dim rhaid i mi benderfynu yn y fan a'r lle. Gallaf benderfynu beth rydw i eisiau ei wneud."

Am y tro, mae hi'n canolbwyntio ar ei hastudiaethau ac yn parhau i gynorthwyo eraill.

"Cynrychioli pobl ag anableddau dysgu, dyna rydw i eisiau parhau i'w wneud."

Wrth edrych yn ôl, mae Tammi yn dweud bod y cymorth a gafodd wedi ei helpu i ddeall beth oedd yn bosibl a rhoi'r hyder iddi wneud penderfyniadau am ei dyfodol.

Mae Dawn yn annog rhieni eraill i edrych ar y cymorth sydd ar gael drwy Gyrfa Cymru:



> ***"Mae Alison wedi dangos i ni'r holl lwybrau gwahanol sydd ar gael i bobl ifanc. Mae hi wedi ein helpu i gredu bod unrhyw beth yn bosibl."***

Os hoffech edrych ar eich diddordebau a'ch cyfleoedd gyda chynghorydd Gyrfa Cymru, cysylltwch â ni heddiw.

Stephen Williams
Rheolydd Tîm gyda Gyrfa Gymru, yn rhannu pam nad yw fyth yn rhy hwyr i newid gyrfa

Ar ôl 17 mlynedd mewn rheolaeth manwerthu, gan gynnwys rolau fel Dirprwy Reolwr Siop yn Tesco a Morrisons, sylweddolodd Stephen mai'r rhan o'r swydd yr oedd yn ei mwynhau fwyaf oedd helpu pobl i ddatblygu a chyflawni eu nodau. Gan ei fod am ganolbwyntio mwy ar gefnogi unigolion, siaradodd â chynghorydd gyrfa. Helpodd y sgwrs honno ef i gydnabod y sgiliau trosglwyddadwy yr oedd wedi'u hennill drwy fanwerthu ac agorodd ei lygaid i gyfleoedd nad oedd erioed wedi'u hystyried o'r blaen.

Wedi'i ysbrydoli gan y canllawiau hynny, gwnaeth Stephen gais am rôl cynghorydd gyrfa gyda Gyrfa Cymru. Roedd y rôl yn ffitio'n naturiol, gan gyfuno ei frwdfrydedd dros helpu pobl â'i brofiad o hyfforddi, cefnogi a datblygu eraill.

Cyflawni'r newid

Nid oedd newid gyrfa heb ei heriau. Roedd cymryd cam yn ôl yn ariannol a gadael sefydliad cyfarwydd ar ôl blynyddoedd lawer yn benderfyniad anodd. Fodd bynnag, roedd Stephen yn gwybod y byddai symud yn dod â mwy o foddhad swydd hirdymor. Bu'n rhaid iddo hefyd addasu i weithle newydd a meithrin perthnasoedd proffesiynol newydd, ond cafodd gefnogaeth gan gydweithwyr yn gyflym.

I gymhwyso fel cynghorydd gyrfa, cwblhaodd Stephen gymwysterau Lefel 4 a Lefel 6 mewn Cyngor a Chyfarwyddyd wrth barhau i weithio. Yn debyg iawn i brentisiaeth, roedd y rôl yn cyfuno profiad ymarferol â dysgu ffurfiol.

Mae llawer o'r sgiliau a ddatblygodd ym maes manwerthu yn parhau i'w helpu heddiw, gan gynnwys arweinyddiaeth, cyfathrebu, trefnu a meithrin perthnasoedd. Un o'r pethau mwyaf annisgwyl oedd darganfod pa mor arbenigol yw cyfarwyddyd gyrfaoedd. Yn hytrach na rhoi cyngor yn unig, mae'r rôl yn cynnwys deall cymhellion, heriau a dyheadau pobl, yna eu helpu i greu cynllun realistig ar gyfer eu dyfodol.



Stephen Williams

Teitl Swydd

Rheolydd Tîm Gyrfa Cymru

O gynghorydd gyrfa i rheolydd tîm

Dechreuodd Stephen ei daith gyda Gyrfa Cymru fel cynghorydd gyrfa i oedolion cyn gweithio gydag ysgolion, colegau addysg bellach a gwasanaethau arbenigol. Ar hyd y ffordd, enillodd ddealltwriaeth eang o'r sefydliad a'r gwahanol ffyrdd y mae'n cefnogi pobl ledled Cymru.

Er nad oedd dod yn rheolydd tîm erioed yn rhan o'i gynllun gwreiddiol, cofleidiodd y cyfleoedd newydd pan godasant. Ar ôl ennill profiad gwerthfawr mewn rolau rheoli dros dro a swyddi cynghorydd arbenigol, gan gynnwys cefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, llwyddodd i sicrhau swydd rheolydd tîm barhaol.

Erbyn hyn, nid oes dau ddiwrnod yr un fath. Mae ei rôl yn cynnwys cynorthwyo staff, adolygu perfformiad, arwain prosiectau a helpu i wella gwasanaethau. Yr hyn y mae'n ei fwynhau fwyaf yw helpu cydweithwyr i oresgyn heriau, datblygu eu sgiliau a symud ymlaen yn eu gyrfaoedd eu hunain. Mae hefyd yn gwerthfawrogi ffocws cryf Gyrfa Cymru ar lesiant staff, sy'n ei alluogi i gynorthwyo â pherfformiad a phobl.

Stephen Williams

Teitl Swydd
Rheolydd Tîm Gyrfa Cymru

Sgiliau, dysgu a chyngor i eraill

Mae Stephen yn credu na ddylid byth tanamcangyfrif y sgiliau a gafwyd mewn gyrfaoedd blaenorol. Mae arweinyddiaeth, datrys problemau, hyfforddi, cyfathrebu ac ennill ymddiriedaeth pobl i gyd wedi bod yn hanfodol drwy gydol ei daith yrfa.

Un o'r gwersi mwyaf y mae wedi'i dysgu yw nad oes un dull sy'n addas i bawb. Mae gan bawb wahanol nodau, cymhellion a heriau, a dyna pam mae deall pobl a gwrando'n ofalus mor bwysig.

Wrth edrych yn ôl, mae Stephen yn fwyaf balch o gael yr hyder i fentro ar rywbeth newydd. Er bod newid gyrfa yn heriol, fe ganiataodd iddo adeiladu gyrfa sy'n adlewyrchu ei werthoedd ac yn rhoi'r cyfle iddo wneud gwahaniaeth cadarnhaol bob dydd.

Mae ei gyngor i unrhyw un sy'n ystyried newid gyrfa yn syml: meddyliwch am y rhannau o'ch rôl bresennol rydych chi'n eu mwynhau fwyaf, cydnabyddwch werth eich sgiliau trosglwyddadwy, a cheisiwch gyngor gyrfa proffesiynol. Gwnaeth siarad â chynghorydd gyrfa ei helpu i edrych ar gyfleoedd nad oedd erioed wedi'u hystyried a rhoi'r hyder iddo gymryd y cam nesaf.

Fel gweithiwr Gyrfa Cymru, mae Stephen yn mwynhau'r amrywiaeth a ddaw bob dydd. Mae'n gwerthfawrogi'r cyfle i ymgymryd â rolau newydd a gwahanol, gweithio'n annibynnol ac yn hyblyg, a defnyddio ei sgiliau Cymraeg a Saesneg. Yn bwysicaf oll, mae'n cael boddhad mawr o wybod bod ei waith yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau cwsmeriaid.

Pan ofynnwyd iddo grynhoi ei daith mewn tri gair, dewisodd Stephen:

> **"Heriol, boddhaol a gwerthfawr."**





Os ydych chi'n meddwl yr hoffech chi weithio i Gyrfa Cymru, cadwch lygad am ein swyddi gwag yma.

Cymru'n Gweithio

Cymru'n Gweithio
Working Wales

Rhieni/gofalwyr gallwn ni eich helpu chi hefyd.

Chwilio am waith, am newid gyrfa, neu ddychwelyd ar ôl seibiant? Dewch o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnoch i symud ymlaen yn hyderus.



Yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n gadael yr ysgol a'r coleg, gall Cymru'n Gweithio ddarparu cymorth diduedd am ddim i chi, beth bynnag fo'ch sefyllfa. Gall ein tîm o gynghorwyr eich helpu i archwilio cyfleoedd, datblygu eich sgiliau, cael mynediad at hyfforddiant, dod o hyd i waith, symud ymlaen yn eich gyrfa a chyflawni eich nodau.

Felly, os ydych chi am gael gwaith, eisiau newid gyrfa, yn wynebu diswyddiad neu wedi cael eich diswyddo, mae Cymru'n Gweithio yma i'ch helpu i gymryd eich cam nesaf yn hyderus. Beth bynnag fo'ch amgylchiadau, byddwn yn eich cynorthwyo i ddod o hyd i'r llwybr cywir ymlaen.

Gallwch gael cymorth am ddim mewn canolfan Gyrfa Cymru gan Cymru'n Gweithio, mewn lleoliadau allgymorth, dros y ffôn neu'n ddigidol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn Cymru'n Gweithio neu archebu apwyntiad yma.

Cysylltwch â ni:

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio **0800 028 4844**
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy **www.gyrfacymru.llyw.cymru**
- Galwch heibio i un o'n **canolfannau gyrfa**
- Anfonwch neges ebost i **post@gyrfacymru.llyw.cymru**

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government